__Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3__

**__Gwynedd Lewyrchus:__ Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng**

| Adran a Phrosiect | Trosolwg | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir): | Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau | Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd? Dylid hefyd cynnwys gwybodaeth neu dystiolaeth i gadarnhau hyn (mesurau neu ddata sy'n cadarnhau ayyb) |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Corfforaethol**<br><br>**- Cadw'r Budd yn Lleol** | Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu nwyddau a gwasanaethau sylweddol gan gwmnïau allanol ac rydym yn awyddus i weld busnesau lleol yn cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol.<br>Bydd y prosiect yma yn sicrhau ein bod yn gwneud pob ymdrech i gefnogi busnesau lleol i ymgeisio am gyfleon, o fewn y rheolau perthnasol, tra ar yr un pryd yn sicrhau fod y Cyngor | 1.Datblygu strategaeth caffael newydd i dreiddio egwyddorion a nod y cynllun cadw'r budd yn lleol. | Ydy | Mae yna strategaeth caffael newydd wedi datblygu a'i gymeradwyo gan y Cabinet yn ystod y flwyddyn.<br><br>Mi ddaru ni gymryd y cyfle i ymgysylltu gyda gwahanol rhanddeiliaid wrth ei ddatblygu a bu'r strategaeth newydd gael ei graffu gan y Pwyllgor Corfforaethol dros yr hydref, gan hefyd gael ei gymeradwyo yn fan hyn.<br><br>Mae'r strategaeth newydd yn adnabod saith maes blaenoriaeth sydd yn cynnwys:<br><br>Budd Lleol, Carbon sero, Gwerth am arian, Gwerth Cymdeithasol, Technoleg, Trefniadau llywodraethu a'r Gymraeg.<br><br>Yn ystod 2026/27 byddwn yn gweithio ar ddrafftio cynllun gweithredu a rhoi hwn ar waith. |
| | | 2.Adrodd ar berfformiad caffael y Cyngor – gwariant lleol. | Ydy | Rydym wedi cyfrifo ac adrodd ar wariant caffael y Cyngor gyda busnesau lleol dros y flwyddyn.<br><br>Gwelwn fel y flwyddyn flaenorol bod y prif feysydd ble mae gwariant yn gadael y Sir yn parhau i fod yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | yn cael y gwerth gorau am yr arian sy’n cael ei wario. | | | gynlluniau Adeiladwaith Arbenigol, Systemau TG a Gofal Preswyl i Oedolion a Phlant.<br><br>Gyda phryniant mewn meysydd fel Gofal Cartref, Tai a Chefnogaeth, Cludiant Ysgolion, Hurio Offer ac Ailgylchu yn cael ei ddarparu gan gwmnïau lleol. |
| | | 3.Codi ymwybyddiaeth o’r prosiect a’r amcanion prynu’n lleol, ennill gwerth cymdeithasol a lleihau carbon (hinsawdd) gyda swyddogion y cyngor a busnesau’r Sir. | Yn rhannol | Sesiynau hyfforddi wedi ei datblygu a’i cynnal gyda swyddogion sydd yn caffael yn rheolaidd i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o’r amcanion i brynu’n lleol, ennill gwerth cymdeithasol a lleihau carbon.<br><br>Swyddogion wedi cynnal digwyddiadau cwrdd â'r prynwyr i amlygu’r trefniadau caffael a'r meini asesu hyn.<br><br>Buom hefyd yn rhan o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth busnesau ar y cyd a Busnes Cymru ac Adra.<br><br>Rydym hefyd wedi rhannu negeseuon drwy’r bwletin staff a chefnogi busnesau ynglŷn â newid i’r rheoliadau caffael cenedlaethol newydd. |

## Gwynedd Gymraeg: Sicrhau fod ein trigolion yn cael parhau i fyw mewn cymuned naturiol Gymraeg

| Adran a Phrosiect | Trosolwg | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir): | Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau | Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd? Dylid hefyd cynnwys gwybodaeth neu dystiolaeth i gadarnhau hyn (mesurau neu ddata sy'n cadarnhau ayyb) |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Corfforaethol**<br><br>**– Hybu defnydd o'r Gymraeg gan Drigolion Gwynedd** | Byddwn yn cynnal prosiectau penodol fydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol. | 1.Gweithredu Rhaglen Waith Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033.<br><br>Mae'r strategaeth iaith wedi ei rhannu i 5 blaenoriaeth sef:<br>**Blynyddoedd cynnar**<br>**Iaith dysgu**<br>**Gwaith a Gwasanaeth**<br>**Y gymuned**<br>**Ymchwil a thechnoleg**<br><br>Adroddir yma ar waith sy'n hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd a wneir gan dîm y Gymraeg a Chraffu ac sy'n berthnasol yn bennaf i faes blaenoriaeth Gwaith a Gwasanaeth, Y Gymuned ac Ymchwil a Thechnoleg a'r gwaith a wnaed o ganlyniad i'r grant a roddwyd i Fenter Iaith Gwynedd er mwyn gwireddu rhai elfennau o strategaeth iaith Gwynedd a chyfrannu tuag at gostau staff a phrosiectau 2025-2026. | Ydy | **Maes Blaenoriaeth Gwaith a Gwasanaeth**<br>Bu cydweithio gydag Is-grŵp y Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn er mwyn creu adnoddau digidol ar gyfer sefydliadau cyhoeddus sy'n chwalu mythau am y Gymraeg ac o gymorth i recriwtio siaradwyr Cymraeg.<br><br>Rhoddwyd hyfforddiant i dimau rheoli a chreu fideo ar gyfer y gweithdy croeso er mwyn parhau i geisio gwella cydymffurfiaeth fewnol gyda pholisi iaith y Cyngor a Safonau'r Gymraeg. Parhawyd i gydweithio gydag eraill a chymryd rhan yn Grŵp Cynyddu Defnydd Mewnol Comisiynydd Y Gymraeg er mwyn cynorthwyo i hybu'r Gymraeg mewn gweithleoedd ar hyd Cymru. Mynychwyd gweithdy ffurfio fframwaith sgiliau iaith newydd Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi barn ar beth fyddai'n fuddiol er mwyn cynorthwyo cyflogwyr a'r cyhoedd i'w ddeall a'i ddefnyddio.<br><br>Cydweithiwyd gyda swyddogion Menter Iaith Gwynedd a Thîm Cefnogi Busnes, i weithio tuag at gynyddu defnydd busnesau o'r Gymraeg a rhoi sylw i hynny yn ystod Wythnos Fusnes Gwynedd, diwrnod Shwmae, Su' mae a Diwrnod Hapus i Siarad Mentrau Iaith Cymru. Targedwyd oddeutu 200 o fusnesau i arddangos poster sy'n nodi eu bod yn hapus i siarad Cymraeg gyda |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | chwsmeriaid a chefnogi dysgwyr i sgwrsio yn Nolgellau, Blaenau Ffestiniog, Penrhyndeudraeth, Tywyn a Bro Peris. Mae bwriad i dargedu mwy o fusnesau yn y sir.<br><br>Rhoddwyd sêl bendith i fabwysiadu Twf - Siarter y Gymraeg yn y Gwaith ar y cyd gyda Chyngres Undebau Llafur Cymru a chynrychiolwyr lleol o undebau Unsain, GMB ac Unite gan y Cabinet.  Mae'r siarter yn cefnogi gweithwyr, eu hundebau llafur a chyflogwyr i gydweithio i greu gweithleoedd dwyieithog yn ogystal â rhoi pwyslais ar gynyddu defnydd y Gymraeg yn y gwaith ac ar sicrhau fod gan weithwyr fynediad i gynrychiolaeth gan undebau llafur yn eu dewis iaith. Bu swyddog hefyd yn aelod o banel trafod pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle yn yr Eisteddfod Genedlaethol a beth all eraill wneud i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.<br><br>Cychwynnwyd ar y gwaith o sefydlu Bwrdd Prosiect Y Gymraeg  er mwyn cael gwell trosolwg strategol o waith a wneir i hybu'r Gymraeg ar draws pob adran a chytuno ar flaenoriaethau'r dyfodol.<br><br>**Maes Blaenoriaeth Blynyddoedd cynnar**<br>Bu Menter Iaith Gwynedd yn cydweithio gyda Sesiwn Fawr Dolgellau i gynnal Digwyddiad Hwiangerddi i rieni a Phlant er mwyn annog pobl i ganu hwiangerddi traddodiadol i blant. Cynhyrchwyd hefyd restr chwarae a gafodd ei recordio yn broffesiynol fel bod pobl yn gallu gwrando a chyd ganu adref.<br><br>**Maes Blaenoriaeth Dysgu**<br>Dros y flwyddyn cynhaliwyd amryw o weithgareddau gan Fenter Iaith Gwynedd drwy gydweithio gyda'r ysgolion a'r adran addysg er mwyn hybu'r Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys sesiwn chwarae gemau buarth yn Gymraeg yn Ysgol y Garnedd ym Mangor a |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gweithgareddau i blant, gyda'r cyfle i drafod efo'r rheini, yn ysgol y Faenol ym Mangor yn ystod eu ffair haf. Cydweithiwyd gyda swyddogion Siarter Iaith Gwynedd i gynnal taith gan Gareth yr Orangwtan a Hywel Pitts i 5 ysgol uwchradd gydag elfennu o'r sioe yn trafod pa swyddi sydd angen y Gymraeg ynddynt ar ôl gadael ysgol. Yn ogystal â hyn trefnwyd taith cerddoriaeth ysgolion, gyda Ed Holden yn gwneud gweithdai rapio a Mei Emrys yn gwneud gweithdai sylwebu gydag ymweliadau i Frynrefail, Tywyn, Ardudwy, Friars, Moelwyn a Dyffryn Nantlle. Mynychodd swyddog hefyd gyfarfod Cyngor Iaith yr ysgolion, cynnal sesiwn ymwybyddiaeth iaith a thrafod sut gall y fenter eu cefnogi i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ysgol.<br><br>Cynhaliwyd prosiect 'Arwyr Iaith' eto eleni, ar y cyd gyda'r Adran Addysg, yn Ysgol Ffridd y Llyn ac yn Ysgol Abererch. Roedd y prosiect yn cael ei arwain gan hwyluswyr celfyddydol, yn dilyn y pecyn arbennig a grëwyd sy'n canolbwyntio ar ganmol unigolion sydd newydd ddychwelyd o'r canolfannau trochi i'w mam ysgol, a phwysigrwydd bod y plant sy'n barod yn yr ysgol yn siarad Cymraeg gyda'r newydd ddyfodiaid. Er bod hwn yn brosiect mewn ysgolion mae'r digwyddiadau cloi yn berfformiadau i'r rhieni, ac yn gyfle iddynt ddod mewn a chael perfformiad gan y plant sy'n llawn negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg, ei hanes a phwysigrwydd ei defnyddio. Siaradwyd hefyd gyda theuluoedd disgyblion yr Unedau Trochi ar ddiwedd cyfnod y plant yn y canolfannau.<br><br>**Y gymuned**<br>Yn unol ag amodau'r grant darparwyd nifer o weithgareddau cymunedol i hybu defnydd o'r Gymraeg gan Fenter Iaith Gwynedd. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau a sesiynau sgwrsio cymunedol i ddysgwyr, un ymhob ardal llesiant yng Ngwynedd, sydd yn rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer a magu hyder mewn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | awyrgylch anffurfiol. Cefnogwyd mudiadau cymunedol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn lleol gan gynnwys pwyllgor neuadd Rhiwlas, criw yn Ninas Mawddwy ac aelwydydd Yr Urdd i bobl ifanc yn Llanystumdwy ac ym Mhenrhosgarnedd. Cynhaliwyd hefyd ddigwyddiadau cymunedol ym Methesda, Bala, Botwnnog a Thywyn am sut i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yno<br><br>Defnyddiwyd cerddoriaeth i ddenu oedolion at y Gymraeg, drwy gynnal nosweithiau misol cerddoriaeth Gymraeg yn nhafarn y Nelson ym Mangor, a threfnwyd noson 'Bang Bang Bangor Ucha' ym Mangor uchaf, sef cyfres o gigiau mewn sawl lleoliad. Fel rhan o ddathliadau Gŵyl Dewi cafwyd gig lwyddiannus gan Gwilym Bowen Rhys yn Nhywyn.<br><br>Canolbwyntiwyd ar ddenu teuluoedd sydd ddim fel arfer yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol i ddigwyddiadau cymdeithasol e.e gweithdai creu llusernau yn Y Bala, gig calan yn Llithfaen a disgo cymunedol yn Llanbedrog fel rhan o ddathliadau Gŵyl Dewi yn yr ardal. Trefnwyd hefyd orymdeithiau Gŵyl Dewi yn Nhywyn, Llanbedrog a Bangor gan ddefnyddio arian cyfatebol o Gyngor Gwynedd (Storiel) a'r Loteri i gyd ariannu'r digwyddiadau amrywiol.<br><br>Trefnwyd gorymdeithiau Gŵyl Dewi gan y fenter iaith yn Nhywyn, Llanbedrog a Bangor gan ddefnyddio arian cyfatebol o Gyngor Gwynedd (Storiel) a'r Loteri i gyd ariannu'r digwyddiadau amrywiol yn ogystal â chynnal prosiect Hyrwyddwyr Ifanc a oedd yn rhoi cyfle i griwiau o bobl ifanc drefnu gigiau eu hunain yn Blaenau Ffestiniog, Tywyn a Dolgellau.<br><br>Datblygwyd Prosiect Cefnogi Clybiau Chwaraeon i gynyddu/parhau defnydd o'r Gymraeg yn dilyn ymgynghori gyda chlybiau chwaraeon. Daeth clybiau - |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | CPD y Felinheli, CPD Cae Glyn, Clwb Rygbi Bethesda, Clwb Rygbi Caernarfon, CPD Dolgellau a CPD Llanystumdwy i ddigwyddiad arbennig i weld cynnwys y pecyn a mewnbynnu syniadau iddo ym Mhorthmadog ganol Awst.<br><br>Gweler mwy o fanylion am fforwm iaith Gwynedd, rhaglen waith enwau lleoedd a Phrosiect 15 isod o dan 2,3 a 4.<br><br>Mae'r Cyngor bellach yn aelod o Rwydwaith WISERD sy'n dod ac academyddion a chynllunwyr ieithyddol at ei gilydd i drafod ymchwil am y Gymraeg ac ieithoedd lleiafrifol eraill a chanfod bylchau.<br>Braf hefyd yw adrodd bod adrannau bellach yn cysylltu gydag ymgynghorwyr iaith wrth gaffael systemau technoleg gwybodaeth mawr er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg.<br><br>Gweler mwy o fanylion am y ffrwd gwaith yma o dan 4 a 5. |
| | | 2.Gweithredu Rhaglen waith enwau lleoedd 2025/26 | Ydy | Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd sylw i gynyddu gweledededd enwau Cymraeg yn ogystal â'u hyrwyddo. Darparwyd cyngor ar enwau tai a strydoedd, gosod arwyddion stryd newydd, cynnal gweithdai mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn ogystal â chynghori cyrff a sefydliadau eraill.<br><br>Cydweithiwyd gyda Pheirianwyr ardal Arfon a Dwyfor i osod tua 40 o arwyddion strydoedd newydd a thrafodwyd rhestr o arwyddion strydoedd eraill i'w gosod yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Trefnwyd hefyd bod arwyddion Cymraeg yn cael eu gosod yn nhraethau Mhorth Neigwl a Phorthor.<br>Cynghorwyd eraill hefyd megis Cyngor Conwy a Chyngor Mynwy ar ein prosesau mewnol yn ymwneud ag enwi eiddo, map enwau digidol ac ap enwau i staff a |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | rhoddwyd cyngor i Gymdeithas Ddinesig Caernarfon ynghylch hyrwyddo rhestr o blaciau hen Enwau Strydoedd Caernarfon.<br>Cafwyd adborth da gan ddisgyblion yn Ysgol Maenofferen ac Ysgol Dyffryn Ogwen i'r gweithdy enwau lleoedd. Cyhoeddwyd mwy o erthyglau 'Yr Enw a'r Hanes' ar y Fewnrwyd i hyrwyddo enwau Cymraeg i staff a darparwyd dogfen ar enwau lleoedd Bangor i Fenter Iaith Gwynedd. Cyfrannwyd hefyd at Fforwm Enwau Lleoedd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru gan gynnwys rhannu deunyddiau arfer da a grëwyd gan y prosiect.<br><br>Yn dilyn derbyn ymholiadau gan y cyhoedd rhoddwyd pwysau ar Gyfoeth Naturiol Cymru i newid enw ar goedwig ym Mraichmelyn ym Methesda a chasglu tystiolaeth ar ddefnydd yr enw 'Pistyll Dafn' er mwyn argyhoeddi'r Arolwg Ordnans i ddefnyddio'r enw ar fapiau swyddogol. Mynegwyd pryder hefyd wrth Gomisiynydd y Gymraeg am ddiffyg defnydd o enwau Cymraeg cynhenid gan yr Arolwg Ordnans.<br>Dyma oedd blwyddyn olaf y prosiect ac fe lwyddwyd yn ystod oes y prosiect i roi sylw i'r prif amcanion sef hyrwyddo enwau Cymraeg ar eiddo'r Cyngor, tai unigol, busnesau, strydoedd, pentrefi a chyrchfannau, nodweddion daearyddol.<br><br>Daeth yn amlwg mai'r brif broblem yw nad oes gan y Cyngor unrhyw bŵer i newid enwau ar wahân i enwau strydoedd. Penderfynwyd nad oedd yn ymarferol newid pob arwydd stryd i arwydd Cymraeg ac y byddai'n well newid arwyddion i rai Cymraeg yn unig pan fo angen adnewyddu arwyddion yn dilyn cwblhau peilot newid arwyddion stryd yn Trefor. Cwblhawyd y cynllun peilot eleni a'r brif wers a ddysgwyd oedd bod angen gwirio'n fanwl os yw'r stryd/stad wedi ei mabwysiadu gan y Cyngor yn y gorffennol gan y gall effeithio'n fawr ar |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | leoliad ac union eiriad arwyddion newydd yn ogystal â'r amserlen gosod arwydd.<br><br>Daeth yn amlwg hefyd bod Arolwg Ordnans eisiau gwybod pwy sydd â'r hawl neu'r awdurdod ar enw a thystiolaeth o blaid cefnogi'r newid enw os am newid enwau ar fapiau swyddogol yr Arolwg Ordnans. Heb ein bod yn 'awdurdod' (sef â hawl') ar yr enw mae'n gallu bod yn anodd darbwyllo'r Arolwg Ordnans i newid enwau ar eu mapiau. O safbwynt gwarchod enwau daearyddol ar fapiau swyddogol felly daeth yn amlwg mai dim ond drwy ymyrraeth wleidyddol a deddfwriaeth gref, benodol y gall y Cyngor neud unrhyw beth cadarn a choncrid. |
| | | 3.Datblygu Prosiect 15 ymhellach er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc | Ydy | Comisiynwyd Mentera i reoli a chreu cynnwys ar gyfer cyfryngau cymdeithasol prosiect 15 am eleni a darparu adroddiad ar opsiynau posib ar gyfer y dyfodol i'r prosiect. Braf yw nodi bod twf wedi bod mewn dilynwyr ar bob platfform cymdeithasol gyda sylw arbennig wedi ei roi i'r prif blatfformau a ddefnyddir gan bobl ifanc sef TikTok ac Instagram.<br><br>Cyhoeddwyd pyst yn gysylltiedig gyda Gŵyl Fwyd Caernarfon, cymeriadau AI, Wythnos Balchder LGTBQ, tirwedd Gwynedd, Eisteddfod yr Urdd, Ffeithiau am Wynedd mewn 15 eiliad, Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a chydweithio gyda grwpiau fel Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor a Chlwb Syrffio Llyn yn ogystal â dylanwadwyr amrywiol. Mae un clip fideo o Oshi G, dylanwadwr amaethyddol 16 oed o Wynedd, o ddillad poblogaidd yn y sioe wedi denu dros 161,000 o wylwyr.<br><br>Derbyniwyd adroddiad diwedd blwyddyn a oedd yn nodi bod cyrhaeddiad Instagram dros y flwyddyn wedi cynyddu i 42,000 a bod 382,000 wedi gweld cynnwys cyfrif Tik Tok. Nodwyd hefyd yn yr adroddiad nad oedd y prosiect yn gynaliadwy heb fuddsoddiad digonol o tua |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | £35,000 y flwyddyn a fyddai golygu bod modd rhywun i greu cynnwys am a chyllideb iach i gydweithio gydag unigolion a dylanwadwyr. |
| | | 4.Cynnal a Datblygu Fforwm Iaith Gwynedd | Ydy | Bu Fforwm Iaith Gwynedd eleni yn canolbwyntio ar greu strategaeth iaith i'r fforwm. Er nad yw'r strategaeth wedi ei gorffen eto mae is-grwpiau wedi eu creu er mwyn edrych yn fwy manwl ar heriau sy'n wynebu rhai meysydd. Erbyn hyn mae gan y fforwm 3 is-grŵp sef busnes, cymunedau a phobl ifanc.<br><br>Mae'r is-grŵp Pobl Ifanc wedi ei sefydlu ers tro ac wedi gwneud ymgynghoriad gyda phobl ifanc 16-18 oed am eu hagweddau at y Gymraeg. Cafwyd 200 ymateb i'r holiadur a gafodd ei rannu ymysg rhai 16-18 mlwydd oed oedd yn byw neu weithio yng Ngwynedd a chynhaliwyd 4 grŵp ffocws er mwyn cael mwy o fanylder ar eu hagweddau. Amlygodd y data bod gwahaniaeth yn nefnydd y Gymraeg a'r hyder i'w ddefnyddio gyda chyfryngau cymdeithasol lle mae'r Gymraeg ar ei gwanaf a hefyd cwymp yn y rhai sydd yn hyderus yn ysgrifennu yn Gymraeg, o gymharu â'i siarad.<br><br>Bydd trafodaethau yn parhau fel is-grŵp ynglŷn â'r ymyraethau i ymgymryd â'r heriau, gyda dau gam yn dod i'r amlwg; sef sicrhau bod cyrsiau Cymraeg i bobl ifanc eu dilyn, bydd yn arwain at yrfaoedd Cymraeg a chodi ymwybyddiaeth pobl ifanc fod galw am y Gymraeg gan gyflogwyr. |
| | | 5.Ymchwilio i ddewis defnydd iaith y cyhoedd wrth ddefnyddio ein gwasanaethau a deall mwy am agweddau pobl at y Gymraeg. | Ydy | Cwblhawyd dadansoddi'r ymchwil a gwelwyd bod defnydd y cyhoedd o'r Gymraeg ar ei uchaf gan blant a phobl ifanc rhwng 5 a 15 oed. Serch hynny gwelwyd patrwm bod y defnydd o'r Gymraeg yn lleihau wrth fynd yn hyn gan y trigolion a arsylwyd. Gwelwyd hefyd bod mwy yn defnyddio Cymraeg gyda staff rheng flaen |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | mewn mannau sy'n darparu gwasanaeth mwy anffurfiol fel llyfrgell neu ganolfan hamdden nag mewn mannau sy'n darparu gwasanaethau mwy ffurfiol fel eu naws e.e Canolfan Galw Gwynedd. Daethpwyd i'r casgliad y byddai'n fuddiol cynnal yr arolwg eto ymhen 3 blynedd a'i ymestyn i leoliadau eraill.<br><br>Bu swyddogion y Cyngor yn arwain ar yr ymgynghoriad at agweddau pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed tuag at yr Iaith Gymraeg ar ran is-grŵp pobl ifanc Fforwm Iaith Gwynedd gan gynnwys dadansoddi'r canlyniadau at y Gymraeg. Gwelwyd nad oedd y bobl ifanc yn gweld gwerth yn y Gymraeg fel sgil yn y byd gwaith.<br><br>Trafodwyd hefyd arolwg ar-lein a wnaed gan Brifysgol Bangor mewn ymgynghoriad gyda Chyngor Gwynedd a oedd yn edrych yn benodol ar agwedd pobl at y Gymraeg. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, tua 900, gydag agwedd bositif at y Gymraeg sy'n newyddion calonogol. |

## Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3

**Gwynedd Effeithlon: Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau bod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn effeithiol**

| Adran a Phrosiect | Trosolwg | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir): | Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau | Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd?<br><br>Dylid hefyd cynnwys gwybodaeth neu dystiolaeth i gadarnhau hyn (mesurau neu ddata sy'n cadarnhau ayyb) |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Corfforaethol –**<br><br>**Cynllunio'r Gweithlu**<br><br>***Hefyd***<br><br>**Trawsadrannol** | Prif nod y prosiect ydi sicrhau bod gan y Cyngor gyflenwad digonol o staff cymwys i'w alluogi i ddarparu gwasanaethau i drigolion y sir, a bod modd i ni sicrhau bod y cyflenwad hwnnw yn ei le am y tymor hir. Byddwn yn mynd i'r afael â phroblemau penodol recriwtio staff mewn meysydd allweddol megis gofal cymdeithasol ac addysg. | 1. Cydweithio ag adrannau a gwasanaethau i gynhyrchu cynlluniau gweithlu, trwy gynghori rheolwyr ar ddilyn y camau canlynol:<br><br>a. Adnabod swyddi allweddol, wedi eu hasesu ar sail risg i barhad gwasanaeth.<br>b. Dadansoddi proffil gweithlu'r timau, er mwyn adnabod risgiau posib i lefelau staffio / anghenion sgiliau.<br>c. Cynhyrchu cynlluniau gweithredu.<br><br>ch. Sefydlu trefniadau adolygu cynlluniau | Nac ydy – gwaith yn parhau | Mae cynllun drafft wedi ei lunio a bydd ymgynghori yn digwydd yn y dyfodol agos. |
| | | 2. Adolygu'r broses a dulliau o ddenu staff i weithio i'r Cyngor, er mwyn parhau i wella'r profiad ar gyfer ymgeiswyr swyddi a sicrhau fod y Cyngor yn denu'r gweithlu mwyaf cymwys posib. Camau i gynnwys:<br><br>a. Adolygu sut rydym yn hysbysebu swyddi a denu ymgeiswyr, a chyflwyno dulliau newydd.<br>b. Adolygu'r broses o gyflwyno ceisiadau, ac addasu fel bo'r angen. | Nac ydy – gwaith yn parhau | Mae cynllun drafft wedi ei lunio a bydd ymgynghori yn digwydd yn y dyfodol agos. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | c. Dod i gasgliad ar sut y gellir cyflwyno ychwanegiadau neu addasiadau i'r pecyn amodau a thelerau gwaith, ac addasu yn ôl y gofyn. | | |
| **Gwasanaethau Corfforaethol –**<br><br>**Sicrhau Tegwch i Bawb** | Byddwn yn parhau gyda gwaith sydd eisoes ar y gweill er mwyn sicrhau bod y Cyngor, yn ei holl weithredoedd, yn rhoi sylw dyledus i gydraddoldeb. Byddwn yn adnabod gwaith sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn trin pawb mewn ffordd sy'n deg, beth bynnag eu nodweddion cydraddoldeb, cefndir a'u hanghenion. | 1. Adolygu a newid ein dulliau o recriwtio pobl i'r gweithlu, er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r profiad gorau posib i ddarpar ymgeiswyr, ond hefyd yn cynnig ein hunain fel cyflogwr blaenllaw i bawb o bob rhan o'r gymdeithas. | Nac Ydi | Mae'r garreg filltir yma ynghlwm â'r gwaith cynllunio'r gweithlu ac wedi llithro i'r flwyddyn 2026-27 oherwydd heriau capasiti. Mae gwaith wedi digwydd i lunio cynllun strategol drafft fydd yn gosod cyfeiriad yn symud ymlaen a bydd hwn yn cael ei arwain gan grŵp trawsadrannol o swyddogion. |
| | | 2. Creu dashfwrdd o ddata am Wynedd i'w ddefnyddio i greu asesiadau effaith sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth ac yn gwella ein gwasanaethau. | Ydi | Mae dashfwrdd craidd wedi ei greu ond ddim yn fyw eto a bydd y gwaith o ychwanegu ato yn hirdymor. Bydd yr wybodaeth yn cael ei ddefnyddio wrth wneud asesiadau effaith ayb, er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu ar sail tystiolaeth gadarn. Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau fod ein polisïau a'n gweithdrefnau yn deg i bawb. |
| | | 3. Parhau i godi ymwybyddiaeth rheolwyr ar bwysigrwydd defnyddio asesiadau effaith cydraddoldeb yn effeithiol. | Yn rhannol | Mae'r drefn electroneg (PowerApp) yn awr yn barod i gael ei hyrwyddo ac mae'r gwaith o ymweld â Thimau Rheoli wedi dechrau. Bydd codi ymwybyddiaeth rheolwyr o'r angen i wneud asesiad yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn gwella ein polisïau a'n gweithdrefnau a sicrhau fod materion cydraddoldeb yn cael sylw dyledus wrth wneud unrhyw newidiadau. |
| | | 4. Cynnal Asesiad Cyflog Cyfartal ar systemau tâl y Cyngor, ac ymateb i unrhyw negeseuon sydd yn codi o'r canlyniadau. | Nac Ydi | Nid yw hwn wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2025-26) a bydd yn llithro i'r flwyddyn nesaf. Byddwn yn comisiynu ymgynghorydd annibynnol dros y misoedd nesaf i ymgymryd â'r gwaith, gyda golwg ar gynhyrchu'r |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | adroddiad yn ystod 2026 - bydd union amserlen cwblhau'r asesiad i'w gadarnhau eto, yn ddibynnol ar yr ymgynghorydd. |
| **Gwasanaethau Corfforaethol –**<br><br>**Merched Mewn Arweinyddiaeth** | Mae nifer y merched sy'n cyflawni swyddogaeth reolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad y gweithlu cyfan. Byddwn felly yn parhau gyda rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a phenodi ar gyfer swyddi rheolaethol, a chreu fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar-arweinwyr benywaidd fel rhan o'r rhaglen i annog mwy o ferched i ymgeisio am uwch-swyddi o fewn y Cyngor. | 1.Parhau i gynnal a datblygu'r gweithgareddau sy'n ffurfio sylfaen i waith y prosiect megis y Rhaglen Datblygu Potensial, Sgyrsiau dros Baned; | Ydy | **'Sgyrsiau dros Baned' -** Dwy gyfres o'r cyfrwng poblogaidd "Sgyrsiau Dros Baned" wedi ei chynnal gyda siaradwyr mewnol. Sgyrsiau gyda Keira Sweenie, Rheolwr Cynllunio, a'r Cynghorydd Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor, wedi eu cynnal yn ystod cyfnod yr haf. Sgyrsiau gyda Llinos Rowlands, Pennaeth Cynorthwyol Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi Adran Cyllid, wedi eu cynnal dros gyfnod y gaeaf.<br><br>Mae trefniadau ar waith i drefnu sgyrsiau pellach ar gyfer y cyfnod i ddod. Y bwriad parhaus yw bod yn targedu mwy o amrediad mewn lefelau swyddi mewn siaradwyr i fod yn cynnwys Rheolwyr ac Arweinyddion Tîm gyda'r bwriad o dargedu merched ifanc i gymryd y cam cyntaf.<br><br>**Rhaglen Ddatblygol -** Mae chweched gyfres o'r Rhaglen Ddatblygol wedi dod i ben ganol mis Rhagfyr. Bu 13 merch deilwng, o amrywiaeth o adrannau'r Cyngor yn rhan o'r gyfres. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae un ferch fu'n rhan o'r gyfres ddiwethaf eisioes wedi ymgeisio ac wedi derbyn swydd uwch gydag ambell un arall wedi ymgeisio am swydd uwch / yn paratoi ar gyfer ymgeisio am swydd uwch.<br><br>Ers sefydlu'r Rhaglen Ddatblygol mae 71 o ferched wedi cymryd rhan hyd yma. |
| | | 2.Cynnal ymyraethau i godi ymwybyddiaeth ymysg dynion; | Nac ydy | Nid oes digwyddiad penodol wedi ei gynnal yn uniongyrchol ar gyfer dynion. Fodd bynnag, defnyddir pob cyfle i hyrwyddo gwaith y prosiect mewn amrywiol rwydweithiau a chyfarfodydd. |
| | | 3.Parhau i adeiladu ar y sylfaen ystadegol sydd eisoes wedi ei sefydlu er pwrpas mesur llwyddiant y prosiect; | Ydy | Mae hwn yn waith parhaus sydd yn digwydd dros y flwyddyn. Y gobaith yw y gellir cynhyrchu adroddiadau byw unwaith y bydd y system Adnoddau Dynol wedi ei mewnosod.<br><br>Mae data ar gynnydd ac effaith y prosiect yn cael ei ddiweddaru'n gyson. Ar hyn o bryd mae'r ffigwr o ferched mewn swyddi rheolaethol yn 46%. Mae yna wahaniaethau rhwng Adrannau, a gwahaniaethau hefyd rhwng haenau swyddi.<br><br>Lluniwyd holiadur i'w anfon allan i ferched y Cyngor yn gynnar mis Ionawr. Pwrpas yr holiadur yw canfod barn merched ar wahanol agweddau er mwyn gallu adnabod sut i symud ymlaen gyda'r prosiect. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Bydd gwaith parhaus yn digwydd dros y flwyddyn i ddiweddaru'r data. |
| | | 4.Parhau a'r gwaith o ddarganfod beth mae Gwasanaethau ar draws y Cyngor yn ei wneud i annog merched i ymgeisio am swyddi uwch er mwyn adnabod a rhannu arfer da, a theilwro ymyraethau yn ôl gofyn Adrannau ble fo angen | Ydy | Gwaith yn parhau. Bellach mae tasg wedi ei ymgorffori i'r rhaglen ddatblygol fod merched sy'n dilyn y rhaglen yn adnabod un darn o waith i fod yn ei wneud yn y maes yn eu Hadran. |
| | | 5.Trefnu digwyddiad i ddathlu llwyddiant gwaith y prosiect hyd yma | Ydy | Eleni crëwyd fideo byr ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Merched a gynhaliwyd ar yr 8.3.26. Dathlwyd llwyddiannau merched a fu ar raglen ddatblygol merched mewn arweinyddiaeth sydd wedi eu dyrchafu i swyddi uwch yn ogystal â phenodiadau allweddol eraill yn ystod y flwyddyn. Rhannwyd y fideo yn fewnol gyda staff trwy'r fewnrwyd a'r Gair Wythnosol. Yn ogystal dangoswyd y fideo i aelodau ar ddechrau cyfarfod o'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth a rhannwyd y fideo drwy'r bwletin i aelodau. |
| | | 6.Defnyddio rhwydweithiau megis 'Rhwydwaith Rheolwyr', 'Sesiwn Byw gyda'r Prif Weithredwr' er mwyn codi ymwybyddiaeth bellach o waith y prosiect. | Ydy | Yn ystod 'Sesiwn Byw' y Prif Weithredwr mis Gorffennaf tynnwyd sylw at y fideo a gynhyrchwyd ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Merched 2025 a rhannwyd y linc i'r fideo yn y panel sgwrsio.<br><br>Ym mwletin staff mis Hydref, tynnwyd sylw fod chweched gyfres Rhaglen Ddatblygol Merched Mewn Arweinyddiaeth wedi cychwyn. Yn ogystal, mae trafodaethau yn cael eu cynnal gydag Arweinydd y Cyngor. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Parhau i fanteisio ar gyfleoedd er mwyn codi ymwybyddiaeth o waith y prosiect. |
| **Gwasanaethau Corfforaethol –**<br><br>**Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a Diogelwch** | Mae'r prosiect yma yn edrych ar reolaeth strategol iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor a'r ffordd mae hynny yn clymu i systemau llywodraethu a pherfformiad cyffredinol. Mae'n golygu cynnal adolygiad llawn o'r system reoli yn ei chyfanrwydd. | 1.Parhau â chyflwyno'r system TG newydd ar gyfer Iechyd a Diogelwch ar draws y Cyngor. Mae'r gwaith wedi'i strwythuro yn dri cham, gyda'r cam cyntaf – datblygu'r ffurflen ddamwain electronig – yn agosáu at ei gwblhau. | Rhan 1 wedi cwblhau. Rhan 2 a 3 wedi oedi oherwydd y system ddigidol gorfforaethol | Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth gyflwyno system TG newydd ar gyfer iechyd a diogelwch ar draws y Cyngor, gyda ffocws clir ar gyflawni'r cam cyntaf o'r rhaglen, sef gweithredu ffurflen electronig ar gyfer adrodd damweiniau, digwyddiadau a methiannau agos. Mae hyn wedi golygu gwaith datblygu, profi, cydlynu a chynllunio helaeth, wedi'i gyflawni drwy gydweithio agos rhwng y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch, TG a rheolwyr ar draws gwasanaethau.<br><br>Er bod adnoddau TG wedi'u hail-flaenoriaethu yn ystod y flwyddyn i gefnogi gwaith corfforaethol ehangach, gan gyfyngu ar y gallu i symud ymlaen â chamau dau a thri ar hyn o bryd, llwyddwyd i gynnal momentwm y rhaglen a chwblhau cam cyntaf y system yn llwyddiannus. Cynhaliwyd peilot cynlluniedig, ochr yn ochr â rhaglen hyfforddi strwythuredig i reolwyr, gan fabwysiadu dull 'hyfforddi'r hyfforddwr'. Erbyn hyn, mae dros 450 o reolwyr wedi derbyn hyfforddiant, gyda'r adborth yn gadarnhaol iawn, gan amlygu effeithlonrwydd, cysondeb a gwell ansawdd adrodd.<br><br>Yn ystod y chwarter olaf, rhoddwyd pwyslais ychwanegol ar weithgareddau cyfathrebu mewnol er mwyn cefnogi gweithredu llawn y system newydd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Cafodd negeseuon allweddol eu rhannu'n eang drwy sianeli corfforaethol, ac anfonwyd posteri i safleoedd gwaith i godi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr o'r newidiadau i'r drefn adrodd. Roedd y dull hwn yn atgyfnerthu disgwyliadau corfforaethol ac yn cefnogi'r broses o rannu gwybodaeth yn lleol, gan gyfrannu at gynnydd pendant o ran dealltwriaeth ac ymgysylltiad ar draws nifer o wasanaethau.<br><br>O ganlyniad i'r gwaith parhaus, ymdrech sylweddol y tîm, a'r ffocws clir ar wreiddio'r trefniadau newydd, daethpwyd i benderfyniad strategol i newid y drefn weithredol. O 1 Ebrill 2026 ymlaen, mae'r Gwasanaeth bellach yn derbyn pob adroddiad o ddamweiniau, digwyddiadau a methiannau agos drwy'r system electronig yn unig. Mae hyn yn nodi carreg filltir bwysig o ran moderneiddio trefniadau iechyd a diogelwch y Cyngor ac yn dangos sut y gall cyfuniad o systemau, hyfforddiant a chyfathrebu effeithiol sbarduno newid ymarferol ar draws y sefydliad.<br><br>Er bod system TG corfforaethol newydd ar fin cychwyn, ac y gallai hyn gael effaith ar ddatblygiadau pellach yn y dyfodol, nid yw eto'n glir beth fydd natur na graddfa'r effaith honno. Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro mewn cydweithrediad â TG, gyda'r ffocws yn parhau ar gynnal y trefniadau presennol a diogelu'r cynnydd a gyflawnwyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2.Parhau i gyflwyno'r cynllun gweithredu manwl (drafft) i Dîm Rheoli'r Cyngor, sy'n amlinellu'r camau tuag at gyflawni model integredig ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch. | Ydy - wedi ei gyflwyno i'r adrannau a pharhau i'w weithredu. | Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed cynnydd sylweddol wrth ddatblygu a symud ymlaen y cynllun gweithredu manwl i gefnogi gweithredu model integredig ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch ar draws y Cyngor. Er nad yw'r cynllun wedi'i gyflwyno'n ffurfiol eto i Dîm Rheoli'r Cyngor, cynhaliwyd momentwm strategol drwy ddefnyddio canfyddiadau'r holiadur Modelau Diogelwch fel sail i drafodaethau corfforaethol ac adrannol, gan alluogi dealltwriaeth gyffredin a symudiad pendant tuag at weithredu ymarferol.<br><br>Yn ystod cyfnod olaf y flwyddyn, mae'r rhan fwyaf o adrannau wedi trafod Modelau Diogelwch drwy eu fforymau adrannol ac wedi dechrau gweithredu rhaglenni gwaith cysylltiedig. Er mwyn cefnogi gweithredu a monitro cynnydd, sefydlwyd system ganolog i gofnodi, blaenoriaethu a thracio camau gweithredu, gan ddarparu dull strwythuredig a chymesur o reoli gweithgareddau a chynnal trosolwg strategol. Mae'r gwaith hwn, ochr yn ochr â datblygiad parhaus y system TG Iechyd a Diogelwch, a'r angen i gwblhau camau dau a thri er mwyn cryfhau'r seilwaith a'r trefniadau rheoli, yn gosod Cyngor Gwynedd mewn sefyllfa gref i greu trefn gadarn, gynaliadwy ac integredig. Mae hyn yn cefnogi nid yn unig cydymffurfiaeth statudol, ond hefyd datblygu diwylliant cadarnhaol sy'n lleihau risgiau, yn gwella iechyd, diogelwch a llesiant y gweithlu, ac yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cyfrannu at well rheolaeth hirdymor o bwysau ariannol cysylltiedig. |
| | | 3.Datblygu rhaglen archwiliadau pum mlynedd, yn seiliedig ar y data a gasglwyd drwy'r Holiaduron Modelau Diogelwch. | Nac ydy | Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i osod sylfeini cadarn ar gyfer datblygu rhaglen archwiliadau pum mlynedd sy'n seiliedig ar risg, gan ddefnyddio data'r Holiaduron Modelau Diogelwch. Er nad yw rhaglen archwilio ffurfiol wedi'i chwblhau eto, gwnaed penderfyniad ymwybodol a strategol i sicrhau bod y broses yn cael ei sefydlu'n gywir. Byddai symud ymlaen yn rhy fuan heb y data priodol a threfn glir ar gyfer blaenoriaethu wedi bod yn aneffeithiol ac wedi lleihau gwerth yr archwiliadau. O ystyried bod archwiliadau yn adnodd sylweddol i'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch ac i'r adrannau sy'n cael eu harchwilio, rhoddwyd pwyslais clir ar sicrhau bod y model archwilio yn gadarn, yn gyson ac yn ychwanegu gwerth gwirioneddol.<br><br>Er bod rhai rhwystrau wedi arwain at arafu'r amserlen wreiddiol, mae camau pendant wedi'u cymryd i symud y gwaith ymlaen mewn ffordd gynaliadwy. Mae gwaith sylweddol wedi mynd i ddatblygu a chryfhau cofrestr risg gorfforaethol sy'n mapio'r gofynion deddfwriaethol ar draws y Cyngor. Mae'r gofrestr hon yn cael ei chynnal a'i hadolygu'n barhaus er mwyn adlewyrchu newidiadau i'r gyfraith a gofynion AGID, gan ddarparu sail gadarn a hyblyg ar gyfer blaenoriaethu archwiliadau yn y dyfodol ar sail risg wirioneddol. Wrth i weithredu'r Modelau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Diogelwch barhau, rhagwelir y bydd modd cyfuno'r wybodaeth hon â chanlyniadau'r holiaduron i lunio rhaglen archwiliadau corfforaethol pum mlynedd sy'n integredig ac yn adlewyrchu risgiau gwirioneddol ar draws y sefydliad.<br><br>Yn ogystal, mae gwaith wedi dechrau i gryfhau trefniadau gweithredol yr archwiliadau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn offer digidol i gefnogi ymgynghorwyr ar safle a datblygu dulliau mwy effeithiol o gofnodi a rheoli gwybodaeth yn ystod archwiliadau. Mae'r amser a roddwyd i sefydlu'r seilwaith, y prosesau a'r systemau hyn yn cael ei ystyried yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen yn y tymor hir. Yn y cyd-destun hwn, cydnabyddir bod cyflawni rhaglen archwiliadau lawn o fewn blwyddyn wedi bod yn uchelgeisiol yn fwriadol, a bod rhoi amser teg i sefydlu trefn gadarn yn gosod sylfaen lawer cryfach ar gyfer rhaglen archwilio effeithiol, gwerthfawr a chynaliadwy yn y dyfodol. |